# GWASANAETHAU AR ÔL Y CANLYNIADAU – CYFRES TACHWEDD 2024

## ADOLYGIADAU O FARCIO A SAFONI (AOFS)

| GWASANAETH | DISGRIFIAD | COST YR UNED / CYDRAN | DYDDIAD CAU CYFLWYNO CEISIADAU | CYHOEDDI CANLYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth 1 | Gwiriad clerigol | £11 | 13 Chwefror | O fewn 10 diwrnod calendr o wneud cais |
| Gwasanaeth 2 | Ail-wiriad clerigol, adolygiad o'r marcio ar ôl y canlyniadau a datganiad o'r marciau fesul uned/cydran ar gyfer ymgeisydd unigol. | £42 | 13 Chwefror | O fewn 20 diwrnod calendr o wneud cais |
| Gwasanaeth 3 | Adolygu'r safoni ar ôl y canlyniadau. Nid yw'r ddarpariaeth hon ar gael ar gyfer ymgeiswyr unigol. Codir ffi fesul ymgeisydd yn y sampl gwreiddiol. | £32 | 13 Chwefror | O fewn 35 diwrnod calendr o dderbyn y sampl gwreiddiol |

***Rhaid i ganolfannau gael cydsyniad ysgrifenedig gan ymgeiswyr i gynnal gwiriad clerigol ac adolygiad o'r marcio, oherwydd gallai marciau a graddau ymgeiswyr ostwng. Ni ellir canslo cais am adolygiad o'r marcio unwaith y bydd CBAC wedi cyhoeddi canlyniad yr adolygiad o'r marcio, o dan unrhyw amgylchiadau. Nid oes angen caniatâd ysgrifenedig ymgeisydd ar gyfer adolygiad o'r safoni. Gall marciau ymgeiswyr gael eu gostwng ond ni fydd eu graddau pwnc cyhoeddedig yn cael eu gostwng yn y gyfres dan sylw. Gellir cario marc is ymlaen i ardystiad yn y dyfodol.***

## GWELD TUDALEN MYNEDIAD SGRIPT*

| GWASANAETH | DISGRIFIAD | COST YR UNED / CYDRAN | CYHOEDDWYD ERBYN |
|---|---|---|---|
| Gweld Mynediad Sgript | Mynediad am ddim i sgriptiau trwy'r dudalen mynediad sgript gweld am 6 mis ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau. | Rhydd | N/A |

* Rhaid i ganolfannau gael caniatâd ysgrifenedig i weld sgriptiau ymgeiswyr.

## CYFLWYNO CEISIADAU

a) Rhaid cyflwyno pob cais ar ran yr ymgeiswyr mewnol gan Bennaeth y Ganolfan neu aelod awdurdodedig o staff y ganolfan.

b) Rhaid i'r ganolfan ymgymryd â'r holl ohebiaeth gyda CBAC ar ran ymgeiswyr mewnol, nid yr ymgeiswyr na'u rhieni / gofalwyr.

c) Rhaid i bob cais gael ei wneud ar-lein gan ddefnyddio'r cyfleuster ar y wefan ddiogel.

d) Os bydd angen y gwasanaeth yn Gymraeg, dylid rhoi tic yn y blwch priodol.

e) Rhaid anfon gwaith cwrs sydd ym meddiant y ganolfan i'r cyfeiriad canlynol: CBAC, Uned A16/A17, Ffordd Gwaelod y Garth, Stad Ddiwydiannol Trefforest, Pontypridd, CF37 5XF.

f) Dangoswch yn glir yr uned/gydran rydych yn gwneud y cais amdani.

g) Argymhellir eich bod yn gwneud ceisiadau ar gyfer pob uned/cydran o fewn cymhwyster ar yr un pryd â'r cais cychwynnol. Noder, unwaith y bydd canlyniad AOFS wedi cael ei gyhoeddi, ni allwn ddiwygio na thynnu'r canlyniad yn ôl.

h) Anogir ymgeiswyr preifat i ofyn cyngor gan eu canolfan gofrestru ac i gyflwyno unrhyw geisiadau drwyddyn nhw. Gallant gyflwyno cais yn uniongyrchol yn ogystal drwy anfon e-bost at prs@wjec.co.uk gan nodi enw'r ymgeisydd a rhif y ganolfan.

**CYNLLUNIAU MARCIO** - Bydd cynlluniau marcio ar gael ar wefan ddiogel CBAC.

**HYSBYSIAD I GANOLFANNAU** - Rhaid i CBAC gadw gwaith yr holl ymgeiswyr y cyflwynwyd cais adolygu marcio neu safoni ar eu cyfer am ddim llai na 12 mis ar ôl yr hysbysiad o ganlyniad yr adolygiad.

## Ni fydd CBAC yn codi ffi o dan yr amgylchiadau canlynol

1. Lle mae adolygiad o farcio yn arwain at newid gradd uned.
2. Lle mae adolygiad o farcio yn arwain at newid gradd y cymhwyster. (Ni chodir ffi am unedau cysylltiedig yn yr adolygiad ychwaith).
3. Lle mae adolygiad o ganlyniadau safoni mewn canolfan yn cael ei adfer.
4. Ar gyfer adolygiadau o farcio lle mae apêl ddilynol wedi'i chadarnhau.

## APELIADAU

| GWASANAETH | COST/UNED | DYDDIAD CAU CYFLWYNO CEISIADAU |
|---|---|---|
| Ymchwiliad rhagarweiniol | £120 | Mae'n rhaid i apeliadau gael eu gwneud o fewn 30 diwrnod calendr o dderbyn canlyniad gwiriad AOFS. |
| Gwrandawiad yr Apêl | £200 | Rhaid cyflwyno cais am Apêl Cam 2 o fewn dwy wythnos galendr o dderbyn llythyr canlyniad Apêl Ymchwiliad rhagarweiniol. |

Ni chodir ffi os cadarnheir yr apêl.